

Yr hyn i'w wneud os ydych yn gofidio am hiliaeth

Yn dilyn refferendwm yr UE, efallai eich bod yn gofidio am adroddiadau ar gynnydd mewn achosion casineb ar sail hil, yn enwedig tuag at weithwyr mudol a lleiafrifoedd ethnig. Yn ogystal, os ydych yn ddinesydd yr UE yn gweithio yn y DU, efallai eich bod yn teimlo'n ansicr am eich sefyllfa yn y dyfodol.

Isod mae rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am eich hawliau, yr hyn y gallwch ei ddisgwyl, a ble i fynd am help a chymorth os ydych yn dioddef hiliaeth yn y gwaith neu rywle arall.

Eich hawliau yn y gwaith

Mae gan bob cyflogai'r hawl i:



Weithio mewn amodau diogel ac iachus



I beidio â chael ei fygwth, aflonyddu neu'i fwlio.



I beidio â chael ei wahaniaethu yn ei erbyn



Allu cwyno am driniaeth sâl heb gael ei erlid

Dinasyddion yr UE yn gweithio yn y DU

Mae gan ddinasyddion yr UE yr hawl o hyd i fyw, byw a chael budd-daliadau yn y DU. Ni fydd hyn yn newid nes i'r DU beidio â bod yn aelod o'r Undeb

Ewropeaidd neu nes i gytundeb newydd gael ei negodi ar gyfer dinasyddion yr UE eisoes yn trigo yn y DU. Gallai'r broses honno gymryd tipyn o amser, a chaiff newidiadau eu cyhoeddi cyn iddyn nhw ddigwydd, felly nid oes angen brysio i weithredu.



Siarad am faterion gwleidyddol cynhennus

- Dylai materion gwleidyddol cynhennus gael eu cynnal yn sensitif a chyda pharch am farnau a safbwyntiau pobl eraill.
- Mae gennym oll yr hawl i ryddid mynegiant, ond nid yw hyn yn ymestyn i ddiogelu iaith sy'n gwahaniaethu yn ein herbyn, yn ein haflonyddu nag sy'n ennyn trais neu gasineb yn erbyn pobl eraill.

Achosion casineb ar sail hil

Bu sôn am adroddiadau ar gynnydd mewn achosion hiliaeth a chasineb. Camweddau troseddol yw'r rhain. Dywedodd Cyngor Penaethiaid Cenedlaethol yr Heddlu y bydd:

‘dioddefwyr a’r sawl sy’n teimlo’n agored i niwed yn cael cymorth gan yr heddlu a gall troseddwyr ddisgwyl ymateb cryf a dedfrydau llymach.’



Ble i gael gwybodaeth a help

- Os ydych yn gofidio, gallwch drafod eich pryderon gyda'ch rheolwr llinell.
- Os ydych yn aelod undeb, siaradwch â'ch cynrychiolydd undeb.
- Os ydych o'r farn eich bod wedi dioddef gwahaniaethu, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)** ar 0808 800 0082.
- Gall unrhyw un sy'n dioddef achos o gasineb ar sail hil ei adrodd amdano drwy ffonio'r **heddlu ar 101. Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob amser.**
- Gallwch hefyd ddefnyddio **True Vision**, y wefan swyddogol ar gyfer adrodd am droseddau casineb - **www.report-it.org.uk**. Mae gan True Vision hefyd **ganolfannau adrodd** trydydd parti ar gyfer y rhai nad ydyn nhw am fynd at yr heddlu'n uniongyrchol. Mae'r canolfannau hyn hefyd yn darparu cyngor a chymorth.
- Yn yr Alban, adroddwch am achosion o gasineb yn uniongyrchol ar wefan Heddlu'r Alban - **<https://www.scotland.police.uk/secureforms/hate-crime/>**
- Gallwch hefyd gysylltu'n ddienw â'r elusen annibynnol **Crimestoppers** ar **0800 555 111**.
- Os ydych yn ddinesydd yr UE, gallwch gael gwybodaeth yn beirnesol i bobl o'ch gwlad enedigol gan eich llysgenhadaeth neu swyddfa is-gennad. Os ydych am help i ddod o hyd i'ch llysgenhadaeth neu swyddfa is-gennad, cysylltwch â **Chyngor am Bopeth** ar **www.citizensadvice.org.uk** neu ffoniwch **03444 111 444**.
- Llinellau cymorth Cymorth i Ddioddefwyr: **Lloegr a Cymru 0808 168 911; Yr Alban 0345 603 9213**
- Am gyngor diduedd ar dacio achosion casineb ar sail hil, cysylltwch ag **Acas** (Gwasanaeth Cymodi a Chyflafareddu) at **<http://www.acas.org.uk/racehate/>**



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission